



Cynllun Caniatâd

Cynnwys

Cynllun Caniatâd

Tudalen 1 o 7

- 1 CYFLWYNIAD
- 2 EGWYDDORION CANIATÂD
- 3 DEDDFWRIAETH AC ARWEINIAD
- 4 CANIATÂD I'R PRIF GWNSTABL AM SWYDDOGAETHAU STATUDOL A SWYDDOGAETHAU ERAILL

Cyllid

Caffael

Eiddo

Cyfreithiol

Adnoddau Dynol

- 5 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y COMISIYNYDD

Cyllid

Adnoddau Dynol

- 6 SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYR I'R DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

- 7 MATERION BRYD

Cynllun Caniatâd

1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (CYRhA), a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Ionawr 2012 ac a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2013, yn nodi diben a chynnwys y Cynllun Caniatâd y dylid ei baratoi gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Y Comisiynydd) ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Mae'r Cynllun hwn:

- (a) yn nodi sut mae'r Comisiynydd yn disgwyl i gyllideb yr Heddlu gael ei gweithredu

- (b) yn nodi sut bydd y Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl yn atebol am reoli'r gyllideb o ddydd i ddydd
 - (c) yn nodi sut bydd y Prif Gwnstabl yn cynorthwyo yng ngweithrediad swyddogaethau'r Comisiynydd.
 - (d) yn nodi sut bydd y Comisiynydd yn dirprwyo gwaith i'w staff ei hun.
- 1.3 Gwneir y Cynllun Caniatâd hwn (y 'Cynllun') gan y Comisiynydd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'u pwerau perthnasol ac yn unol â'r [Ddeddf](#) a deddfwriaethau perthnasol eraill.
- 1.4 Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw'r corff contractio cyfreithiol sy'n berchen ar yr holl asedau ac atebolrwydd, sydd â chyfrifoldeb am weinyddiaeth ariannol ei swyddfa ef/hi, gan gynnwys y terfynau benthyg.
- 1.5 Mae'r Cynllun Caniatâd yn nodi rolau allweddol y Comisiynydd a'r swyddogaethau hynny y bydd y Comisiynydd yn eu dirprwyo (wrth gyfeirio at ei weithwyr ei hun) neu'n caniatáu iddynt (wrth gyfeirio at y Prif Gwnstabl neu Swyddogion neu staff a gyflogir ganddo) gael eu gwneud gan unigolion penodol, sef:
- Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ('Y Dirprwy Gomisiynydd')
 - Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ('Y Prif Gwnstabl')
 - Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ('Y Prif Weithredwr')
 - Prif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ('Prif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd').
- 1.6 Cefnogir y Cynllun hwn gan, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol.
- 1.7 Nid yw'r Cynllun hwn yn nodi'r holl ddyletswyddau statudol sydd wedi eu cynnwys mewn cyfreithiau a rheoliadau penodol, nac yw ychwaith yn ceisio rhestru'r holl faterion sy'n ffurfio rhan o gyfrifoldebau rheoli o ddydd i ddydd.

2 EGWYDDORION CANIATÂD

- 2.1 Dylid arfer y pwerau a roddir i'r unigolion penodol (adran 1.5) y cyfeirir atynt yn y Cynllun hwn yn unol â dirprwyaeth neu ganiatâd (pa bynnag un sy'n berthnasol) y Comisiynydd, y Gyfraith, gofynion statudol a rheoliadol, arweiniad a chyngor proffesiynol, rheolau a rheoliadau'n ymwneud â chontractau a hefyd unrhyw bolisiâu, gweithdrefnau, cynlluniau, strategaethau a chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo.
- 2.2 Ni ddylai'r Comisiynydd gyfyngu ar annibyniaeth weithredol yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl sy'n ei arwain.
- 2.3 Ac eithrio'r materion hynny a restrir yn Adran 5, mae'r Cynllun yn galluogi unrhyw unigolyn sydd wedi cael pŵer wedi'i ddirprwyo iddo neu sydd wedi cael caniatâd, i drosglwyddo'r ddirprwyaeth/caniatâd hwnnw ymhellach i staff eraill drwy statud, rheoliad neu arweiniad statudol, Nid yw unrhyw is-ddirprwyaeth/ganiatâd yn eithrio'r unigolyn y rhoddwyd y ddirprwyaeth / caniatâd gwreiddiol iddynt rhag bod yn gyfrifol dros unrhyw benderfyniad a gymerir gan unigolyn y maent wedi eu hawdurdodi i weithredu ar eu rhan. Lle rhoddir cyfrifoldeb am fater i'r Prif Gwnstabl, gall y Prif Gwnstabl drefnu i unrhyw un o'i swyddogion neu staff ymgymryd â'r swyddogaeth berthnasol ar ei ran drwy Gynllun Dirprwyo'r Heddlu. Bydd y Prif Gwnstabl yn darparu'r Comisiynydd â chopi o'r Cynllun Dirprwyo.
- 2.4 Rhaid i'r holl benderfyniadau a wneir yn unol â'r pwerau a ddirprwyir iddynt/rhoddir caniatâd iddynt eu gwneud, gael eu cofnodi mewn modd amserol a manwl gywir.
- 2.5 Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Dirprwy Gomisiynydd a staff y Comisiynydd yn ymwybodol o ddarpariaethau a goblygiadau'r Cynllun hwn. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl Swyddogion a Staff y mae'n gyfrifol amdanynt neu'n eu cyflogi yn gyfarwydd â darpariaethau a goblygiadau'r Cynllun hwn.
- 2.6 Er gwaethaf unrhyw ofynion penodol yn y Cynllun hwn, ymgynghorir â'r Comisiynydd mewn perthynas ag unrhyw brosiectau cyfalaf/maes gwaith a allai gael effaith sylweddol ar gymuned Gogledd Cymru. Bydd angen ymgynghori â'r Comisiynydd ar gamau'r achos busnes amlinellol ac achos busnes llawn gan gynnwys unrhyw werthusiad o unrhyw achos busnes.
- 2.7 Mae gan yr unigolyn a benodir fel Prif Weithredwr (a fydd hefyd yn Swyddog Monitro) a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiynydd ("swyddog adran 151") bwerau a dyletswyddau statudol perthnasol i'w swyddi ac felly nid ydynt yn dibynnu ar ddirprwyaeth benodol er mwyn cyflawni'r pwerau hyn.

- 2.8 Bydd Llawlyfr Llywodraethu'r Comisiynydd, gan gynnwys y Cynllun hwn, yn cael ei adolygu'n flynyddol neu ar unrhyw adeg arall mae'r Comisiynydd yn penderfynu sy'n briodol.

3 DEDDFWRIAETH AC ARWEINIAD

- 3.1 Mae dirprwyaeth dan y cynllun hwn yn darparu unigolion penodol â'r grym cyfreithiol i gyflawni dyletswyddau'r Comisiynydd. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn mae'n rhaid i'r swyddog gydymffurfio â holl ofynion statudol a rheoli eraill a'r arweiniad proffesiynol perthnasol ac mae'n rhaid i'r Cynllun gael ei ddarllen ar y cyd â holl ofynion cyfreithiol eraill y Comisiynydd a/neu'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys:

- ❖ [Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011](#) a deddfwriaethau perthnasol eraill a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf.
- ❖ Rheoliadau Ariannol (Pennod 3) a Rheolau Sefydlog yn ymwneud â Chontractau (Pennod 4).
- ❖ [Cod Ymarfer Rheoli Cyllid y Swyddfa Gartref](#)
- ❖ [Datganiad CIPFA ar rôl Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl](#)
- ❖ [Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011](#), fel y'i diwygiwyd neu a gyhoeddir o bryd i'w gilydd o dan y Ddeddf.
- ❖ [Deddf Diogelu Data 2018](#) a [Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#)
- ❖ Deddfwriaethau a chodau [lechyd a diogelwch yn y gweithle](#)
- ❖ Y Cynllun Heddlu a Throsedd

4 SWYDDOGAETHAU STATUDOL A SWYDDOGAETHAU ERAILL Y RHODDWYD CANIATÂD I'R PRIF GWNSTABL AMDANYNT

- 4.1 Y Prif Gwnstabl sy'n atebol am ymarfer grymoedd yr heddlu, ac mae'n atebol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd am ddarparu plismona effeithiol ac effeithlon a rheoli adnoddau a gwariant yr Heddlu.
- 4.2 Mae gan y Comisiynydd y pwerau i benderfynu faint o gyllid y dylid ei ddyrannu i'r Heddlu gan ystyried ei gyfrifoldebau statudol am blismona yn ei gyfanrwydd yng Ngogledd Cymru; y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r Gofyniad Plismona Strategol.
- 4.3 Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb i'r cyhoedd ac mae'n atebol i'r Comisiynydd am:
- (a) Gefnogi'r Comisiynydd i ddarparu'r Cynllun Heddlu a Throsedd ac i ystyried cynnwys y Cynllun wrth weithredu ei swyddogaethau.
 - (b) Darparu'r Comisiynydd â mynediad i wybodaeth, swyddogion a staff yn ôl yr angen ac yn unol ag unrhyw Gytundeb Lefel gwasanaeth/Memorandwm o Ddealltwriaeth

ar y ddarpariaeth o wasanaethau proffesiynol, trafodaethol a gwasanaethau cefnogi eraill.

- (c) Ystyried y Gofyniad Plismona Strategol wrth ymarfer a chynllunio ei swyddogaethau plismona.
- (d) Hysbysu a diweddarau'r Comisiynydd am unrhyw fater neu ymchwiliad y gallai fod angen darparu sicrwydd i'r cyhoedd arno un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â'r Comisiynydd.
- (e) Bod yn llais gweithredol plismona yng Ngogledd Cymru ac egluro'n rheolaidd i'r cyhoedd weithredoedd gweithredol swyddogion a staff sydd o dan ei reolaeth.
- (f) Sicrhau ei fod yn wleidyddol annibynnol.
- (g) Rheoli'r holl gwynion yn erbyn yr Heddlu , ei swyddogion a'i staff gan sicrhau eu bod yn cael eu hymchwilio ar y lefel briodol, ac eithrio mewn perthynas â'r Prif Gwnstabl, a sicrhau yr hysbysir y Comisiynydd am unrhyw ddatblygiadau er mwyn ei alluogi o/hi i ddirprwyo ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chwynion mewn modd pwrpasol ac amserol. Rhaid cyfeirio cwynion a materion difrifol at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

- 4.4 Mewn perthynas â swyddogaethau yn Adran 5 na ellir eu hymarfer heb ganiatâd y Comisiynydd, lle ceir unrhyw amheuaeth o ran dehongliad, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Comisiynydd am benderfyniad.

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am y swyddogaethau canlynol a nodir ym mharagraffau 4.5 i 4.22, rhai ohonynt o ganlyniad i ganiatâd a roddir gan y Comisiynydd. Cyn belled a bo ganddo'r awdurdod i wneud hynny, mae'r Comisiynydd yn rhoi caniatâd i'r Prif Gwnstabl weithredu yn y fath fodd neu gyflawni swyddogaethau o'r fath mewn perthynas â'r adnoddau a ddyrannir iddo fel sy'n angenrheidiol i'r Prif Gwnstabl allu ymarfer ei swyddogaethau plismona.

Cyllid

- 4.5 Mae'r Comisiynydd yn rhoi caniatâd i'r Prif Gwnstabl gymryd yr holl gamau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r gyllideb ac adnoddau eraill a ddyrennir iddo gan y Comisiynydd gan gynnwys y canlynol:

- (a) Ymgymryd â rheolaeth dydd i ddydd y gyllideb a ddarparwyd i'r Heddlu yn unol â'r rheoliadau ariannol.

Caffael

- 4.6 Rheoli'r swyddogaeth caffael o ddydd i ddydd yn unol â rheoliadau ariannol a'r Polisi Caffael a gytunwyd arno gan y Comisiynydd.
- 4.7 Caffael a chytuno ar gontractau yn ei rinwedd ei hun am nwyddau a / neu wasanaethau sydd â chyfanswm gwerth blynyddol o lai na £100,000 a gwerth cyfanredol dros oes y cytundeb o dan £250,000.

4.8 Cymeradwyo estyniadau i gontractau sy'n dod o dan yr amodau y cytunwyd arnynt ar gyfer y contract.

4.8 Cymeradwyo estyniadau i gytundebau sy'n digwydd o fewn telerau'r cytundeb a gytunwyd arnynt.

Eiddo

4.9 Rheoli a chynnal ystâd y Comisiynydd yn unol â'r strategaethau a'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Comisiynydd.

4.10 Cynnal cofrestr asedau o'r holl eiddo ac asedau sylweddol sy'n berchen i'r Comisiynydd neu sy'n cael eu prydlesu ganddo.

Cyfreithiol

4.11 Cymeradwyo setliad ariannol yr holl hawliadau yn erbyn Swyddfa'r Prif Gwnstabl.

4.12 Rhaid i'r Prif Gwnstabl gyflwyno adroddiad blynyddol ar setliad unrhyw hawliadau i'r Comisiynydd yn unol â'r paragraff hwn.

4.13 Cychwyn, amddiffyn neu gymryd rhan mewn gweithredoedd cyfreithiol er mwyn amddiffyn buddiannau Heddlu Gogledd Cymru.

4.14 Darparu cyngor, cychwyn ac amddiffyn gweithdrefnau cyfreithiol ar ran y Comisiynydd pan wneir cais gan y Comisiynydd i wneud hynny.

Adnoddau Dynol

4.15 Yn amodol ar yr angen i'r goblygiadau ariannol gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd ac yn unol â'r polisiau y cytunwyd arnynt, cymeradwyo ymddeoliadau neu ddiswyddiadau gwirfoddol, er lles effeithlonrwydd y gwasanaeth, staff lle mae symiau o fewn y gyllideb ac adrodd yn ôl i'r Comisiynydd ar y mater hwn bob blwyddyn.

4.16 Er y gofyniad absoliwt ym mharagraff 4.15, rhaid hysbysu'r Comisiynydd o bob penodiad, ymddeoliad cynnar neu ymddeoliad oherwydd salwch, diswyddiad gwirfoddol, gwaharddiad neu ddiswyddiad i unrhyw aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

4.17 Cymeradwyo penodiad neu secondiad swyddogion heddlu ar gyfer gwasanaethau canolog neu ddyletswyddau tramor, yn amodol ar ystadegau perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Comisiynydd yn flynyddol.

4.18 Yn unol ag unrhyw ganiatâd a roddir gan yr Ysgrifennydd Cartref, caniatáu gwyliau gyda thâl, a thalu'r ffioedd a chostau priodol, ar gyfer swyddogion heddlu a ddewisir i ddilyn cyrsiau gradd yn y brifysgol.

- 4.19 Gweithredu cytundebau cenedlaethol ar gyflogau ac amodau. Bydd unrhyw faterion a allent fod yn sensitif neu a allent fod â goblygiadau ariannol sylweddol yn cael eu tynnu at sylw'r Comisiynydd ar y cyfle cyntaf posibl.
- 4.20 Hysbysu'r Comisiynydd ymlaen llaw am unrhyw drafodaethau arfaethedig gydag undebau llafur a chymdeithasau staff cydnabyddedig ar unrhyw faterion y gellir eu datrys yn lleol. Rhaid adrodd yn ôl i'r Comisiynydd ar yr holl gytundebau.
- 4.21 Caniatáu lwfansau defnyddiwr car hanfodol neu achlysurol neu gynlluniau prydlesu ceir ar gyfer Swyddogion a Staff yr Heddlu.
- 4.22 Cymeradwyo ymddeoliad Swyddogion a Staff yr Heddlu ar sail salwch, a thaliad pensiynau salwch arferol a thaliadau eraill yn unol â pholisïau y cytunwyd arnynt, gan ddilyn cyngor gan Archwilydd Meddygol yr Heddlu neu ymarferydd meddygol. Fodd bynnag, rhaid hysbysu'r Comisiynydd am ymddeoliad y Dirprwy Brif Gwnstabl, Prif Gwnstablaid Cynorthwyol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau. Rhaid adrodd yn ôl i'r Comisiynydd ar yr holl ymddeoliadau o ganlyniad i salwch drwy'r fforwm perthnasol y cytunwyd arno.

5 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y COMISIYNYDD

- 5.1 Mae'r materion a nodir ym mharagraffau 5.2 i 5.7 isod wedi eu cadw ar gyfer eu penderfynu gan y Comisiynydd:

Cyllid

- 5.2 Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn cynnwys y senario ariannol ar gyfer y pedair blynedd nesaf a chyllidebau refeniw a chyfalaf drafft, a chynlluniau arbedion cysylltiedig er mwyn gallu cyflawni'r senario.
- 5.3 Y strategaeth arian wrth gefn, yn cynnwys yr holl arian wrth gefn, yn ogystal â threfniadau wrth gefn o fewn y gyllideb. Bydd angen cymeradwyaeth y Comisiynydd i gael defnyddio'r arian wrth gefn.
- 5.4 Yn unol â'r swyddogaethau statudol, penderfynu ar y gyllideb flynyddol, y rhaglen gyfalaf, praesept a'r dreth cyngor, sy'n ffurfio blwyddyn gyntaf y strategaeth.
- 5.5 Dilead unrhyw ddyled sy'n debygol o gynnwys materion yn ymwneud ag enw da. Fe ddylai'r Prif Gwnstabl dynnu sylw Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd at unrhyw achosion o'r math hwn ac yna bydd ef/hi yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r dilead at y Comisiynydd ar gyfer ei gymeradwyo.
- 5.6 Unrhyw gynnig sy'n cynnwys y ddarpariaeth o nawdd, anrhegion neu fenthyciadau i'r Heddlu gan drydydd parti a allai olygu goblygiadau enw da neu olygu costau/ymrwymadau yn y dyfodol o fwy na £5,000 ar gyfer y Comisiynydd neu'r Heddlu.

Adnoddau Dynol

- 5.7 Er y swyddogaethau a rhoddir caniatâd i'r Prif Gwnstabl eu cyflawni yn adran 4 o'r Cynllun hwn, goblygiadau ariannol newidiadau staffio (sy'n cynnwys penodiadau neu ddod â chyflogaeth i ben) nas cymeradwywyd eisoes wrth osod y gyllideb flynyddol neu a gytunwyd yn benodol gan y Comisiynydd, yn ymwneud ag unigolion neu grwpiau a fydd (neu sy'n debygol o) yn golygu gwariant neu arbediad yn y gyllideb.

6 SWYDDOGAETHAU A DDIRPRWYR I'R DIRPRWY GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

- 6.1 Yn absenoldeb y Comisiynydd, mae'r Comisiynydd yn dirprwyo ei benderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaethau statudol i'r Dirprwy Gomisiynydd, gyda'r eithriad o'r pwerau hynn y na ellir eu dirprwyo o dan y Ddeddf.
- 6.2 Gall y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ddirprwyo i'r Prif Weithredwr yn ei absenoldeb (a ddiffinnir fel gwyliau neu salwch).
- 6.3 Gall y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd ddirprwyo ar gyfer y Comisiynydd ym mhob agwedd o'i rôl ar wahân i'r rhai na ellir eu dirprwyo o dan y Ddeddf.

7 MATERION BRYG

- 7.1 Os oes unrhyw fater yn codi a fyddai fel arfer yn cael ei gyfeirio at y Comisiynydd (neu'r Dirprwy Gomisiynydd) ac na ellir gohirio'r penderfyniad, caniateir i'r unigolyn penodol priodol o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad. Mae'n rhaid hysbysu'r Comisiynydd o benderfyniadau brys a wneir cyn gynted a bo'n ymarferol bosibl, wrth adrodd yn ôl ar y penderfyniad dylid cynnwys eglurhad ynghylch pam yr oedd y penderfyniad yn briodol i'w ddehongli fel mater brys.
- 7.2 Yr unigolion penodol priodol sydd â'r awdurdod i benderfynu ar faterion brys yw:

■ y Prif Weithredwr

■ y Prif Swyddog Cyllid (materion ariannol a chysylltiedig)